

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Dyddiad	03/05/2022
Amser	9.30 – 11.30
Lleoliad	Microsoft Teams
Aelodau	Geraint Parry (Cadeirydd) - Ysgol Brynhyfryd, Mark Hatch (MH) - Dinas Bran, Helen Vernon (HV) - Bodnant, Colette Owen (CO) – Diocese, Neil Foley (NF) – Prestatyn High, Teleri Llwyd (TLL) – Borthyn, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rona Jones (RJ) – Emmanuel, Rhona O’Neill (RO) – Tir Morfa, Geraint Davies (GD) – Pennaeth Addysg, Maria Rimmer - Denbigh High (MR), Dafydd Davies (DD) - Ysgol Twm o’r Nant, Gwyn Tudor (GT) – Ysgol Glan Clwyd, Gwyndaf Davies (GHD) - Gwernant
Rhai nad ydynt yn aelodau	Craig Joyce (CAJ) - Rheolwr Ariannu Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Nodiadau), Steve Gadd (SGD) – Pennaeth Cyllid, Chris Speed (CS) – Rheolwr Cyllid a Sicrwydd, Catrin Williams - Rheolwr Busnes Clwstwr Cymraeg (CW) (Arsylwr),
Ymddiheuriadau	Claire Armistead - Rhyl High, Shannon Gage – Is-gadeirydd, Amanda Preston – Christ the Word, Lindsey Davenport – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, Leah Crimes - St Brigids

1. Croeso

Croesawodd Geraint Parry (y Cadeirydd) y grŵp.

Roedd 14 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.

2. Materion sy'n codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf 17/01/2022

Nid oedd unrhyw faterion yn codi. Cytunodd y fforwm ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Gyllideb – Steve Gadd

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn cyllideb ddangosol dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos ein bod mewn sefyllfa well yn gyffredinol ond nid yw'n hysbys eto beth fydd y pwysau a'r chwyddiant.

Bydd yr egwyddorion ar gyfer ysgolion yr un peth wrth edrych ar ariannu chwyddiant yn 2023/24.

Ar hyn o bryd, nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn chwilio am arbedion 1% gan ysgolion yn 2023/24.

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Rydym y tu ôl i'r amserlen oherwydd yr etholiadau. Bydd papur strategaeth ariannol tymor canolig yn cael ei gyflwyno i'r cabinet ym mis Mehefin a bydd SG yn mynychu'r Fforwm Cyllideb Ysgolion nesaf gydag unrhyw ddiweddariadau.

Ym mis Mehefin, cynhelir gweithdy cyllideb i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r cabinet ac rydym yn disgwyl y bydd y setliad drafft yn dod drwodd ym mis Hydref, a bydd yn derfynol ym mis Rhagfyr.

Gofynnodd GP os byddai'r Sir yn edrych ar y balansau arian dros ben ac os bydd rhybudd yn cael ei roi o ran unrhyw newidiadau?

Dywedodd SG nad oes gan y Sir unrhyw awydd i edrych ar hyn ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd angen gwario'r ffigurau arian dros ben a'u cynllunio dros 2 flynedd.

Gofynnodd RJ am gynllunio cyllidebau, rydym bob amser gydag arian ar ddiwedd y flwyddyn gydag amserlen fer i'w wario.

SG - mae Llywodraeth Cymru bob amser yn blaenoriaethu ysgolion a bydd cyllid ar gael ar ddiwedd y flwyddyn, nid oes dim y gallwn ni ei wneud am hyn ac mae'n well ei gael na pheidio â'i gael o gwbl.

Prydau ysgol am ddim - mae SG a Paul Barnes wedi bod yn holi am yr hawliad prydau ysgol am ddim diweddaraf. Mae angen cael cymhelliant ar y cyd i gofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim a byddwn yn edrych ar y materion cofrestru awtomatig.

GP - A oes unrhyw arwydd o'r dyfarniad cyflog ar gyfer y flwyddyn nesaf? Cadarnhaodd SG nad oes dim wedi'i gyhoeddi hyd yn hyn. Rydym yn rhagweld 4% i staff addysgu a staff nad ydynt yn addysg ar gyfer 2022/23.

4. Cadarnhau Cyllidebau Ysgolion

Anfonwyd y cyllidebau ym mis Chwefror. Nid ydym wedi derbyn unrhyw ymholiadau gan yr ysgolion. Gofynnir i'r fforwm gadarnhau'r cyllidebau.

Cafodd ei gadarnhau gan GP/RJ/MH.

5. Cynlluniau Cyfun

Anfonwyd y taenlenni gyda'r costau at y grŵp yn flaenorol. Mae yna orwariant o oddeutu £200 mil. Bydd ysgolion yn cael eu haddasu yn unol â hynny.

Gofynnodd CAJ bod penderfyniad yn cael ei wneud i gynyddu'r pot ar gyfer y flwyddyn nesaf neu adrodd yn ôl gyda'r ffigurau yn yr haf a'i gadw fel y mae.

Awgrymodd NF i'w gadw fel y mae.

Cytunwyd i gadw cyfanswm y pot yr un fath ar gyfer y cynlluniau cyfun.

Fforwm Cyllideb Ysgolion

6. Nofio

Pleidleisiodd y Fforwm Cyllideb Ysgolion i roi'r taliadau drwodd yr un fath â'r llynedd oherwydd Covid, gan fod rhai ysgolion wedi nofio am 2 dymor yn unig a rhai heb nofio o gwbl. Mae CH wedi rhoi'r taliadau drwodd ar gyfer 2021/22.

Bu i CH atgoffa'r grŵp y codir tâl ar ysgolion am nofio os nad ydynt yn troi fyny ar gyfer y gwersi neu os nad ydynt yn rhoi digon o rybudd o flaen llaw os ydynt yn canslo. Mae hyn oherwydd y bydd Hamdden eisoes wedi staffio'r gwersi hynny felly bydd angen talu am y costau hynny.

7. Costau TGCh Ysgolion

Mae CAJ yn edrych ar y costau TGCh ar gyfer ysgolion bach. Bydd angen rhoi papur i'r grŵp TGCh strategol ar gyfer ei drafod cyn i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wneud unrhyw benderfyniadau ariannol.

Gofynnodd GP pwy gytunodd ar y fethodoleg? Cadarnhaodd CAJ mai TGCh sy'n penderfynu ar sail y tâl.

TLL - Cynhaliwyd trafodaethau yng nghlwstwr Rhuthun a byddant yn croesawu cyfathrebu trwy'r sianeli priodol ynglŷn â hyn.

Gofynnodd CW os bydd gostyngiad mewn costau ar draws i gyflenwi'r model gan nad oes mwy o ysgolion fel rhan o'r model? Cadarnhaodd CAJ y bydd hyn yn cael ei drafod gyda TGCh.

Cytunwyd i roi diweddariad yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion nesaf.

8. Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol a Balansau Ysgolion

Hyd yn oed gyda'r hwb ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae 2 ysgol yn parhau i fod mewn trafferthion ariannol ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r nifer gynyddu eto gan fod y cyllid grant yn arian unwaith yn unig ac nid yw'n gynaliadwy. Bydd y balansau ar gael i'r cyhoedd yn fuan a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cabinet a'i gynnwys yn y datganiad adran 52.

Gofynnodd MH am ddiweddariad ar greu cyfrifon dal yn ganolog i ysgolion er mwyn arbed arian ar gyfer prynu offer TGCh newydd a chostau terfynu GAIA sy'n ddyledus.

CAJ - cadarnhaodd bod hyn wedi'i godi ond nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto.

CAM GWEITHREDU – CAJ i siarad â'r Prif Gyfrifydd ar gyfer gwneud penderfyniad.

Balansau – Mae'r balansau ar gyfer 2021/22 bellach wedi'u cwblhau. Roeddem yn rhagweld arian dros ben o £5.7 miliwn ond mae bellach yn £12.5 miliwn o arian dros ben i ysgolion. Rydym wedi derbyn £5.6 miliwn mewn grantiau a £4 miliwn ychwanegol ers y Nadolig gan Lywodraeth Cymru sef y prif gyfrannwr ar gyfer y cynnydd mawr. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gyngor Sir Ddinbych unrhyw gynlluniau i gymryd arian gan ysgolion

Fforwm Cyllideb Ysgolion

sydd â balansau dros ben. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn hyn ar hyn o bryd felly fe allai ddod yn fater mwy amlwg yn y blynyddoedd i ddod.

9. Materion yn codi o'r clystyrau

TLL – Y mater o ran TGCh ysgolion bach sydd eisoes wedi'i drafod.

10. Unrhyw Fater Arall

Cylch gorchwyl - Dywedodd y Cadeirydd ein bod wedi derbyn cwynion o ran y bleidlais anghenion dysgu ychwanegol a gynhaliwyd. Cynhaliwyd trafodaeth ar y broses o ran pwy sydd â'r hawl i bleidleisio. Cytunwyd bod y bleidlais anghenion dysgu ychwanegol yn un ar sail clwstwr felly ni wnaeth rhoi o'r aelodau bleidleisio.

Gofynnodd MR bod copi o'r cylch gorchwyl yn cael ei anfon at yr holl aelodau i'w drafod.

Bu i GT gefnogi MR i edrych ar y cylch gorchwyl.

Sylwodd RJ bod gwahaniaethau yn y clwstwr pan oedd yn dod i bleidleisio ond roedd yn mynd gyda'r mwyafrif ac roedd yn teimlo ei fod yn sefyllfa anodd. A yw ein rôl i bleidleisio y dewis mwyaf teg i bob ysgol?

Cytunodd NG gyda RJ.

GP – Oes gan ysgolion gynrychiolydd i bleidleisio neu i fynd yn ôl ac ymgynghori â chydweithwyr y clwstwr? Pwynt arall a godwyd oedd bod y Cadeirydd, sydd hefyd yn Bennaeth Ysgol Uwchradd, wedi cael gwneud y penderfyniad terfynol pan oedd y bleidlais yn gyfartal.

Cadarnhaodd CH bod y cylch gorchwyl yn cael ei ddilyn yn unol â'r broses ar gyfer y bleidlais. Nid ydym wedi bod yn yr un sefyllfa o'r blaen gyda phleidleisio.

CAJ - mae'r canllawiau ar gyfer y cylch gorchwyl wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru.

CYTUNWYD – bod y cylch gorchwyl yn cael ei gylchredeg i'r grŵp a'i drafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40am

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022 ar Microsoft Teams.